

Gweithgareddau i Flynyddoedd 5 a 6 Cyfrwng Cymraeg


Her ddarllen hwyliog sy'n sbarduno darllen er pleser i blant oed cynradd Cymru





# GORNEST LYFRAU 2024–25





CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

# Cynnwys


| | tudalen |
|---|---|
| **Beth yw Gornest Lyfrau?** | **3** |
| **Llyfrau 2024–25** | **3** |
| **Cwestiynau trafod cyffredinol** | **4** |
| **Arwana Swtan a'r Sgodyn Od** | **5** |
| **Adnabod Awdur: Angie Roberts** | **6** |
| **Dosbarth Miss Prydderch: Y Seithfed Stori** | **7** |
| **Adnabod Awdur: Mererid Hopwood** | **9** |
| **Jac a'r Angel** | **10** |
| **Adnabod Awdur: Daf James** | **12** |
| **Llanddafad** | **13** |
| **Adnabod Awdur: Gareth Evans-Jones** | **14** |
| **Cyfres Genod Gwyrdd: Achub Afon!** | **15** |
| **Adnabod Addasydd: Llio Elain Maddocks** | **16** |
| **Hufen Afiach Dai** | **17** |
| **Adnabod Awdur: Meilyr Siôn** | **18** |
| **Cofnod darllen grŵp** | **19** |
| **Cofnod darllen** | **20** |

## Beth yw Gornest Lyfrau?

Prosiect blynyddol sydd yn annog darllenwyr ifanc Blynyddoedd 3–6 i ddarllen er pleser, trafod y llyfrau maen nhw'n eu darllen, a mwynhau paratoi fideo creadigol fel grŵp neu ddosbarth yn seiliedig ar un o'r llyfrau sydd ar y rhestr ddarllen, yw'r Ornest Lyfrau.

Gall ysgolion cystadlu yn y categorïau isod ac mae rhestr ddarllen ar gael ar gyfer:

- Blynyddoedd 3 a 4 (cyfrwng Cymraeg) ac ysgolion Trawsieithol
- Blynyddoedd 5 a 6 cyfrwng Cymraeg
- Blynyddoedd 3–6 cyfrwng Saesneg


Mae canllawiau ar gael ar gyfer y tri chategori uchod ar ffurf pdf.

Bydd angen i ysgolion ddewis un llyfr o'r rhestr i'w drafod ac un arall i'w gyflwyno fel hysbyseb. Cynhelir rownd sirol dan ofal y trefnwyr sirol, a bydd yr enillwyr sirol yn mynd ymlaen i'r rownd genedlaethol yn nhymor yr haf.

Bydd yr ysgolion buddugol yn ennill tlws arbennig ynghyd ag un o'r gwobrau canlynol:

- Gwobr 1af – gwerth £200 o lyfrau
- 2ail wobr – gwerth £150 o lyfrau
- 3edd wobr – gwerth £100 o lyfrau


## Llyfrau 2024–25





**Arwana Swtan a'r Sgodyn Od** (Angie Roberts, Dyfan Roberts Gwasg y Bwthyn)





**Jac a'r Angel** (Daf James, Y Lolfa)





**Cyfres Genod Gwyrdd: Achub Afon!** (Holly Webb, Addasiad gan Llio Elain Maddocks, Rily)




**Dosbarth Miss Prydderch: Y Seithfed Stori** (Mererid Hopwood, Atebol)




**Llanddafad** (Gareth Evans-Jones, Y Lolfa)





**Hufen Afiach Dai** (Meilyr Siôn, Atebol)

## Cwestiynau trafod cyffredinol

- Beth ddaru chi ei fwynhau am y llyfr a pham?
- Disgrifiwch eich hoff ran o'r llyfr. Pam mai dyna yw eich hoff ran?
- Beth wnaethoch chi ddim ei fwynhau am y llyfr?
- Oedd y llyfr yn hawdd ac yn bleserus i'w ddarllen?
- Oedd y llyfr yn wahanol i'ch disgwyliadau chi? Os felly, sut?
- Oeddech chi'n hapus gyda diwedd y stori? Pam hynny?
- Beth hoffech chi ei newid am y llyfr a pham? Sut basech chi'n ei newid?
- Hoffech chi ddarllen y llyfr eto? Pam hynny?
- Pa gwestiynau oedd gennych chi am y stori wrth i chi ddarllen y llyfr? Gawson nhw eu hateb? Os do, sut?
- Pa gwestiynau sydd gennych chi am y stori ar ôl gorffen y llyfr?
- Ydych chi'n credu y byddwch chi'n cofio'r llyfr yma ymhen ychydig fisoedd neu flynyddoedd? Pam hynny?
- Disgrifiwch y llyfr mewn brawddeg.
- Yn eich barn chi, fyddai newid lleoliad neu gyfnod y stori'n effeithio ar y stori? Ym mha ffordd?
- Ydych chi'n credu bod teitl y llyfr yn gweddu i'r stori? Pam hynny? Os na, beth fyddech chi'n ei roi fel teitl?
- Beth yw eich barn chi am glawr y llyfr?
- Gawsoch chi eich atgoffa o unrhyw lyfrau eraill, ffilmiau neu raglenni teledu wrth ddarllen y llyfr yma? Hoffech chi ddarllen mwy o lyfrau fel hyn? Pam hynny?
- Beth yw eich barn chi ar y themâu sy'n cael eu trafod yn y llyfr?
- Yn eich barn chi, i bwy mae'r llyfr yma'n addas?
- Petaech chi'n cwrdd â'r awduron, pa dri chwestiwn hoffech chi ofyn iddyn nhw?
- Petai tri chopi o'r llyfr gyda chi i'w rhoi yn anrhegion, i bwy fasech chi'n eu rhoi nhw a pham?
- Petai'r llyfr yn cael ei droi'n rhaglen deledu neu ffilm, pwy fasech chi'n eu castio yn brif gymeriadau? Pam hynny?
- Ydych chi wedi dysgu unrhyw beth trwy ddarllen y llyfr yma? Os ydych chi, beth?
- Oes unrhyw beth hoffech chi ddysgu rhagor amdano ar ôl darllen y llyfr yma?
- Gan beth gawsoch chi eich synnu yn y llyfr yma? Ym mha ffordd?
- Sylwoch chi ar unrhyw batrymau yn y stori?
- Petaech chi'n gallu cwrdd ag unrhyw gymeriad yn y llyfr, pa gymeriad fyddai hynny a pham?
- Petaech chi'n gallu bod yn y llyfr, pa ddigwyddiadau hoffech chi fod yn rhan ohonyn nhw a pham?

## *Arwana Swtan a'r Sgodyn Od*

**Angie Roberts, Dyfan Roberts**
**Gwasg y Bwthyn**




Dyma nofel fer a doniol dros ben gan awdur sy'n gwybod sut i ddiddori a phlesio plant. Mae pethau'n ddiflas iawn yng Nghaernarfon pan mae Arwana Swtan yn cyrraedd yno yng nghanol storm fawr i aros efo'i thaid, Taidi. Ond diolch i'r fôr-forwyn hynod honno, Swigi Dwgong, daw tro ar fyd i'r dre a'i phobol. Stori gyflym, glyfar a llawn hiwmor.

### Cwestiynau Trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Sut mae hiwmor yn ychwanegu at y nofel? Oes darnau doniol sy'n aros yn y cof?
- Pa fath o anifeiliaid sy'n byw yn y môr? Gallwch ddewis anifail a chreu proffil manwl i'r anifail?
- Ydych chi wedi bod ar gwch neu long o'r blaen?
- Ydych chi wedi ymweld â Chaernarfon o'r blaen?
- Mae bod ar lan y môr yn wych ar gyfer lles a chreadigrwydd. Oes gennych chi hoff le neu ofod awyr agored? Allwch chi ddisgrifio'ch lle arbennig i ffrind? Neu greu llun? Beth sydd yno? Coed neu ddŵr, efallai?
- Ydych chi'n gwybod pa greadur yw'r un mwyaf o amgylch Cymru sy'n byw yn y môr?
- Edrychwch ar y llun ar y clawr. Pa elfennau o'r stori allwch chi eu gweld yn cael eu dangos yn y llun?
- Beth ydych chi'n ei feddwl o'r darluniad a'r lluniau yn y llyfr? Oes gennych chi ffefryn?
- Mae storm "waetha welodd Caernarfon ers cant o flynyddoedd" yn digwydd yn y llyfr. Beth ydych chi'n gwybod am stormydd? Pam ydy stormydd yn digwydd?
- Mae gan Gaernarfon porthladd. Beth ydy pwrpas porthladdoedd? Beth ydy'r porth agosach at le yr ydych chi'n byw?

### Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Beth am greu bwystfil , môr-forynion, neu anifail o'r môr eich hun? Gallwch dynnu llun neu ddefnyddio clai i greu eich creaduriaid neu fwystfilod mawr. Yna,  cynlluniwch eich sioe bypedau eich hun gyda'ch creaduriaid clai. Gallwch hefyd greu pypedau gan ddefnyddio papur neu gerdyn, glud a ffyn lolipops rhew. Neu beth am wneud animeiddiad ar y cyfrifiadur? Cofiwch wneud cefndiroedd ar gyfer eich sioe.

Neu...

Mae'r llyfr yn cynnwys map o Gaernarfon ar ddechrau'r stori. Beth am ddylunio map eich hun ar gyfer eich pentref, tref neu ddinas, neu dychmygwch ynys neu le eich hun? Gallwch gynnwys pethau o'ch dychymyg neu o'r byd go iawn. Dyma rai syniadau i'w cynnwys: anifeiliaid, pobl, ysgrifennu, adeiladau, mynyddoedd, planhigion, creaduriaid hudolus.

**Wedi mwynhau *Arwana Swtan a'r Sgodyn Od?* Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?**

***Hanes fy Hynodrwydd*** – Chloe Heuch – Firefly
***Megs*** – Meleri Wyn James – Y Lolfa
***Hufen Afiach*** – Meilyr Siôn – Atebol
***Hufen Afiach Dai*** – Meilyr Siôn – Atebol
***Haf o Hud*** - Caryl Lewis – Y Lolfa
**Cyfres Y Bwystfil a'r Betsan** – Jack Meggitt-Phillips – Atebol
***Camau Corsiog*** – Meilyr Siôn – Atebol

# Angie Roberts

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Bwlchgwyn ger Wrecsam, pentre uchaf Cymru. Mae yno goedwig ar gyfer antur, mynydd ar gyfer picnic, labyrinth o ogofâu ar gyfer archwilio, a llwyn mwyar duon mawr iawn ar gyfer gwneud jam – a staenio bysedd, wyneb a dillad dydd Sul.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Amhosib dewis un llyfr yn unig. Y llyfrau William gan Richmal Crompton oherwydd eu bod yn gwneud i mi chwerthin, *The Mouse and his Child* gan Russell Hoban oherwydd iddo wneud i mi grio, a *Pippi Longstocking* gan Astrid Lindgren oherwydd bod Pippi wedi gwneud i mi fod eisiau bod yn wyllt ac anarchaidd. A gwisgo sanau streip.

**Hoff gymeriad o lyfr plentyndod?**
Mae gen i lawer o ffefrynnau, a phob un am resymau hollol wahanol: William wrth gwrs. William yn anad neb. Plant amddifad Baudelaire o A Series of Unfortunate Events. Yn enwedig y babi. Damian o *Millions* gan Frank Cottrell Boyce, Clarice Bean gan Lauren Child, Lyra Silvertongue Phillip Pullman, Skellig David Almond, y tŷ yn *The House with Chicken Legs* gan Sophie Anderson – ac, wrth gwrs, *Pry Bach Tew* Mary Vaughan Jones.

**Hoff le?**
Ymhlith y dail a'r adar yn haen uchaf ein Tŷ Coed Sycamorwydden.

**Hoff fwyd?**
Lobscows. Faswn i'n gallu'i fwyta nes bod fy stumog i'n brifo.

**Hoff ffilm?**
*Hunt for the Wilderpeople*, *My Neighbour Totoro*, *Bridge to Tarabitha*, *Y Dyn Nath Ddwyn y 'Dolig*, *Time Bandits*, *Dennis the Menace, Bugsy Malone, Paddington 2*, *The Little Rascals*, *Edward Scissorhands*, *Son of Rambow* ...


**Superpower o ddewis?**
Gall yr Octopws Brych Glas oleuo yn y tywyllwch. Byddai hynny'n uwch-bwer handi. Fasech chi byth yn gorfod brifo bysedd eich traed wrth grwydro drwy'r tŷ ganol nos eto.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Roeddwn i eisiau bod yn ofodwr unwaith. Neu'n lleian. Dychmygais fod un yn darganfod bydoedd rhyngalaethol, a'r llall yn dod o hyd i fydoedd mewnol. Felly mi ddes i'n gyfarwyddwr/awdur teledu/radio/ffilm/theatr yn lle hynny. Ac roedd hynny'n golygu y gallwn i greu llwyth o wahanol fydoedd i mi fy hun.

**Top tip i ddarpar awduron?**
Darllenwch lawer o lyfrau. Ac yna daliwch ati i ddarllen llawer mwy!

# *Dosbarth Miss Prydderch: Y Seithfed Stori*

**Mererid Hopwood**
**Atebol**




Mae Miss Prydderch a'i charped hud yn eu holau yn barod am antur newydd. Mae'r Haint wedi disgyn ar y wlad sy'n golygu bod rhaid i bawb fod yn ofalus yn yr ysgol a chadw pellter oddi wrth ei gilydd. Ond dyw hynny ddim yn stopio'r dosbarth rhag mynd ar antur i fyd arallfydol. Ac mae pethau rhyfedd yn digwydd yn y byd go iawn hefyd.

## Cwestiynau Trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Mae'r llyfr yn dechrau gyda "hen bennill". Ydych chi'n hoffi cerddi? Oes gennych chi hoff gerdd?
- Mae llawer o sylwadau trwy'r llyfr i esbonio ystyr geiriau. Ydych chi wedi dysgu geiriau newydd fel canlyniad?
- Mae gan Alfred sêr ar nenfwd ei ystafell gwely mewn siâp Gwregys Orion. Ydych chi'n gwybod am unrhyw siapau eraill sy'n ymddangos yn y sêr? Beth ydyn ni'n ei alw'n rhywun sy'n astudio sêr?
- Mae llawer o ffeithiau yn y llyfr. Ydych chi'n hoffi darllen llyfrau ffeithiol? Oes gennych chi hoff lyfr ffeithiol?
- Beth ydych chi wedi'i ddysgu o ddarllen y stori?
- Mae Miss Prydderch yn "gallu dysgu popeth. Mathemateg o bob math. Pob math o Gelfyddyd fel Cerddoriaeth ac Arlunio. Ieithoedd: Cymraeg, Saesneg a hefyd Ffrangeg." Oes gennych chi hoff bwnc yn yr ysgol?
- Ydych chi wedi darllen y llyfr arall yn y gyfres? Ydych chi eisiau gwneud hynny ar ôl ddarllen y seithfed stori?
- Allwch chi dynnu llun o geffyl fel mae dosbarth Miss Prydderch yn gwneud ar dudalen 75?
- Mae gan ddosbarth Miss Prydderch Garped Hud sy'n mynd a'r plant ar anturiaethau. Pe gallech chi fynd ar daith carped hud, ble hoffech chi fynd?
- Mae Miss Prydderch yn gofyn i Dewi fod yn dditectif yn y ddegfed bennod. Ydych chi'n hoffi straeon dirgelwch?

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Edrychwch ar y llun ar y clawr. Pa elfennau o'r stori allwch chi eu gweld yn cael eu dangos yn y llun? Beth ydych chi'n ei feddwl o'r darluniad a'r lluniau yn y llyfr? Oes gennych chi ffefryn? Beth am ail-greu un o'r darluniau eich hun neu ddyluniwch rai eich hun o un o'r golygfeydd yn y llyfr trwy ddefnyddio pensiliau lliw neu baent?

Neu...

Beth am chwarae rôl? Y gadair boeth ... Beth am eistedd yn y 'gadair boeth' a chwarae rôl cymeriad o'r llyfr, neu enwogion sy'n ymwneud ag un o'r pynciau yn y llyfr – fel ffisegwr neu rywun hanesyddol fel Gwenllian, tywysoges Castell Cydweli neu Owain Glyndŵr. Mae'n rhaid i'ch cyd-ddisgyblion ofyn cwestiynau!

**Wedi mwynhau *Dosbarth Miss Prydderch: Y Seithfed Stori?* Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?**

**Cyfres Dosbarth Miss Prydderch** – Mererid Hopwood – Atebol
***Astronot yn yr Atig*** – Megan Angharad Hunter – Y Lolfa
**Cyfres Darganfod!** – DK – Rily
***Cymry o Fri!*** – Jon Gower - Y Lolfa
**Cyfres Campau Campus** – Robin Bennett – Rily

# Mererid Hopwood

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Caerdydd

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol gynradd: Caerdydd; Ysgol uwchradd: Ysgol Gyfun Llanhari (lle byddai plant Caerdydd yn mynd bryd hynny gan nad oedd ysgol uwchradd yn y Brifddinas)

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Roeddwn i'n casáu pwdin o'r enw 'semolina'.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Pan o'n i'n fach iawn roeddwn i eisiau bod yn sglefrwaig iâ ... er nad oeddwn i erioed wedi gweld llyn sglefrio yn fy mywyd!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Roeddwn i'n hoffi llyfrau T. Llew Jones a llyfrau Enid Blyton.

**Beth yw eich diddordebau?**
Rwyf wrth fy modd yn llunio cerddi a straeon a chwarae gyda'r wyrion.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Mynd mas mewn cwch bach ar y môr o gwmpas Pencaer, Sir Benfro.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Meddwl bod rhai'n credu bod rhyfela'n iawn.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Mae syniadau'n dod o bob cyfeiriad. Gallwch chi fod yng nghanol sŵn torf neu ar eich pen eich hunan mewn tawelwch, ac weithiau bydd llun neu air yn dod i'ch meddwl ac yn dechrau syniad newydd.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau yw eich bod chi'n gallu creu byd gyda dim mwy na dychymyg.

## Cwestiynau Cyflym:

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
Llyfrau Darllen Newydd
T. Llew Jones

**Hoff gymeriad o lyfr plentyndod?**
*Anne of Green Gables*

**Hoff fwyd?**
Madarch, mecryll a mwyar

**Hoff air?**
Mwswgl (ond bydd ateb gwahanol i hwn bob awr o bob dydd!)

**Superpower o ddewis?**
Gallu bod mewn dau le ar yr un pryd.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Dydw i ddim eto wedi cyrraedd y cyfryngau cymdeithasol


**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Clywed straeon gan yr wyrion.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Archeolegydd.

**Top tip i ddarpar awduron**
Dwedwch eich llinellau'n uchel.

# *Jac a'r Angel*

**Daf James**
**Y Lolfa**




Mae Jac yn byw ym mhentref bach Bethlehem gyda'i dad-cu, ond mae'r Nadolig wedi ei ganslo ar yr aelwyd eleni. Felly pan ffrwydra angel allan o galendr adfent ei fam, a chynnig dymuniad iddo, mae'n edrych fel petai'r rhod yn troi. Ei ddymuniad? Cael chwarae rhan Mair yn sioe Nadolig yr ysgol. Ond pan mae'r Nadolig yn dechrau diflannu o'i gwmpas, a theulu'r Heroniaid yn chwalu ei gynlluniau, mae Jac yn gwneud darganfyddiad a fydd yn newid ei fyd – a'r Nadolig – am byth.

## Cwestiynau Trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Mae'r stori'n digwydd dros wyliau Nadolig. A fyddech chi'n disgrifio'r llyfr fel llyfr Nadoligaidd yn unig, neu oes themâu a neges sy'n addas i'r flwyddyn gyfan? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Oes gennych chi hoff lyfr neu ffilm Nadoligaidd?
- Beth ydych chi'n meddwl yw neges y stori?
- Ydych chi wedi perfformio mewn drama o'r blaen? Neu hoffech chi berfformio?
- Mae'r awdur, Daf James, hefyd yn ddramodydd. Ydych chi wedi bod i'r theatr o'r blaen? Pa fath o sioeau ydych chi'n hoffi, neu hoffech chi weld?
- Beth yw eich barn chi am y darluniadau sydd yn y llyfr?
- Fel mae'n nodi ar gefn y clawr, mae 24 pennod yn y llyfr a 24 diwrnod i'r calendr adfent. Sawl diwrnod fyddai'n ei gymryd i ddarllen llyfr sydd â 24 pennod os ydych chi'n darllen dwy bennod y dydd? Beth am dair pennod, neu bedair pennod y dydd?
- Sut ydych chi'n meddwl roedd Jac yn teimlo ar ddechrau'r stori? Sut oedd o'n teimlo erbyn diwedd y stori?
- A wnaeth y stori gwrdd â'ch disgwyliadau, ar ôl darllen y broliant ac edrych ar y clawr? Hoffech chi ei darllen eto yn y dyfodol?
- Mae Jac wrth ei fodd yn canu. Ydych chi'n hoffi canu? Beth yw'ch hoff gan? Beth am greu rhestr o ganeuon gan eich hoff gantorion ar gyfer disgo yn y dosbarth!

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Mewn grwpiau neu barau, darllenwch yr ail bennod eto. Yna, trafodwch beth fyddech chi'n ei wneud pe baech chi'n derbyn cynnig fel yr un gafodd Jac. Pa ddymuniadau fyddech chi'n eu dewis? Yna, gallwch chi wneud jar 'dymuniadau'r dosbarth' lle mae pawb yn ysgrifennu eu dymuniadau ar ddarn o bapur a'u plygu i'w rhoi yn y jar.

Neu...

Beth am gynllunio Eisteddfod yr Angylion neu "Ecstrafagansa" Nadolig? Os ydych chi'n dewis Eisteddfod yr Angylion, meddyliwch am y mathau o gystadlaethau, stondinau a pherfformiadau i'w cynnwys. Os ydych chi'n dewis "Ecstrafagansa" Nadolig (neu ŵyl arall), pa fath o sioe – fel sioe gerddorol neu ddrama – hoffech chi ei gwneud? Gallwch chi gynnwys pethau fel gwisg, sgriptiau, cerddoriaeth a thechnoleg os hoffech chi wneud sioe ddigidol.

**Wedi mwynhau *Jac a'r Angel?* Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?**

***Nadolig y Gath yn Sain Ffagan*** – Myrddin ap Dafydd – Gwasg Carreg Gwalch
***Y Frân Glocwaith*** – Catherine Fisher – Firefly
***Hedyn*** – Caryl Lewis – Y Lolfa
***Y Bachgen a'r Adenydd*** – Sir Lenny Henry – Rily
**Cyfres Cadi Goch a'r Ysgol Swynion** – Simon Rodway – Y Lolfa
***Y Llwynog Tân Olaf*** – Lee Newbery – Firefly

# Daf James

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Yn y Bont-faen.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Iolo Morganwg ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i'n casáu mynd ar y bws am fod y bwlis yn cael eu ffordd eu hunain. Ond ro'n i'n ffindo cysur yn y stafell gerdd neu'r stiwdio ddrama – fel Jac yn y llyfr!

**Pa un oedd eich hoff lyfr pan oeddech chi'n blentyn?**
*The Witches* a *To Kill a Mockingbird*. Ro'n i hefyd yn hoff iawn o The Chronicles of Narnia a llyfrau Gwenno Hywyn ac Irma Chilton.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Fy ngŵr a'm plant!

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Fy ngŵr a'm plant! Ac arweinwyr a gwleidyddion yn dweud celwydd.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Dwi wastad wedi sgwennu'n greadigol. Yn blentyn ro'n i'n dwlu creu straeon byrion a barddoniaeth. Ond ro'dd popeth eitha morbid a thywyll! Dwi'n meddwl o'n i'n ymarfer shwt i ymdopi ag emosiynau mawr bywyd drwy sgwennu.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Straeon am gymeriadau ymylol: pobl sy'n teimlo ar y 'tu fas'; straeon am gariad; straeon am gymeriadau yn gorchfygu anawsterau mawr; straeon am deuluoedd; straeon am hud a lledrith; straeon am gymeriadau LHDTC+, straeon sy'n ymwneud â cherddoriaeth. Dwi'n hoff iawn o straeon sy'n neud i fi chwerthin a chrio.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Yng ngeiriau anfarwol Eden (a'r angel yn *Jac a'r Angel*): paid â bod ofn! Dechreuwch sgwennu a pheidio gorfeddwl. Yr her gyntaf yw cyrraedd y diwedd: mae'n haws ailsgwennu rhywbeth unwaith bod geirie ar bapur na syllu ar ddalen wag. Peidiwch poeni os yw e'n rybish – bydd y lleisie mewnol yna wastad yn trio dweud nad yw eich gwaith yn ddigon da, ond rhaid anwybyddu nhw, a rhoi rhwydd hynt i fod yn rybish 'fyd. Ma' lot o 'ngweithiau mwyaf llwyddiannus wedi cychwyn fel rhywbeth o'n i'n meddwl o'dd yn rybish!

## Cwestiynau Cyflym:

**Hoff gymeriad o lyfr plentyndod?**
Dwi'n caru diniweidrwydd Paddington a'r ffordd mae e'n gweld y da mewn pobl – tym' bach fel Jac. Ond dwi hefyd fy modd gyda chymeriadau cas fel Miss Trunchbull!

**Hoff fwyd?**
Unrhyw beth gan fy ngŵr – mae e'n athrylith yn y gegin!

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
*Y Dyn Nath Ddwyn y Dolig*. Mae'r ffilm wedi ysbrydoli *Jac a'r Angel*.

**Hoff air?**
Ansbaradigaethus – am air!

**Superpower o ddewis?**
Gallu hedfan, neu bod yn anweledig, Ga i'r ddau superpower?


**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.

**Swydd tasech chi dim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
'Frontman' band cŵl yn perfformio ar brif lwyfan Glastonbury, neu bêl-droediwr gorau'r byd.

**Top tip i ddarpar awduron**
Mae gan bawb ei stori a'i ffordd unigryw o weld y byd: sgwennwch o'r galon a pheidiwch â bod ofn!

# *Llanddafad*

**Gareth Evans-Jones**
**Y Lolfa**




Dewch i gwrdd â Bet, brenhines y defaid, Enfys, y ddafad amryliw, Seren, y ddafad lawn steil, Tomos Tatws, Mari fach, a llawer mwy! Mae 12 stori yn y gyfrol hon, pob un yn canolbwyntio ar fis o'r flwyddyn, ac felly mae digon o amrywiaeth pynciau sy'n mynd â'r plentyn drwy'r flwyddyn ym myd fferm o ddefaid.

## Cwestiynau Trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Mae 12 pennod neu stori fach sydd yn y llyfr. Oes gennych chi ffefryn? Pam hynny?
- Ydych chi'n gwneud addunedau blwyddyn newydd?
- Mae yna lawer o sypreisiau yn y llyfr fel y parti yn yr ail bennod a 'syrpeis Non' yn y drydedd un. Ydych chi wedi syrpreisio rhywun o'r blaen? Neu wedi bod i barti syrpeis? Ydych chi'n hoffi sypreis?
- Beth yw'r anrheg gorau ydych chi erioed wedi derbyn neu roi i rywun arall?
- Beth ydy hanes traddodiad Ffŵl Ebrill?
- Mae Enfys yn hoffi gosod sialens iddi hi ei hun. Ydych chi'n debyg i Enfys? Pa fath o sialensau ydych chi wedi gwneud? Ydych chi wedi gwneud Sialens Ddarllen yr Haf, er enghraifft?
- Faint o wahanol fath o ddefaid sy'n bodoli?
- Ydych chi wedi gwneud mabolgampau yn yr ysgol o'r blaen? Neu gymryd rhan mewn Eisteddfod yr Ysgol neu Eisteddfod yr Urdd? Mae Heni'n hoff iawn o chwaraeon a mabolgampau, ac mae Swnan yn hoff o'r Eisteddfod. Pa un sydd well gennych chi? Neu'r ddau!
- Allwch chi ysgrifennu cerdd eich hun yn yr un arddull na'r un sydd ar dudalen 58?
- Allwch chi gyfri'r holl ddefaid sydd yn y lluniau gan gynnwys y clawr? Pa anifeiliaid eraill ydych chi'n gallu gweld yn y llyfr?

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Beth am greu llun cysylltu'r dotiau o un o'r anifeiliaid yn y llyfr, fel gwiwer neu lyffant, ac yna cyfnewid eich llun â ffrind i'w gwblhau? Gallwch ddefnyddio dotiau neu rifau ar gyfer y dasg hon.

Neu...

Oes gennych chi hoff fis o'r flwyddyn? Pam? Beth am ddewis mis ac ewch ati i greu stori fer eich hun yn seiliedig ar eich hoff fis? Cofiwch feddwl am yr holl bethau sy'n digwydd yn ystod eich hoff fis, a'r adeg neu dymor o'r flwyddyn. Gallwch hefyd creu lluniau i gyd-fynd gyda'ch stori fer!

### Wedi mwynhau *Llanddafad?* Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

***Chwedlau'r PySgwod*** – Anni Llŷn – Gwasg Carreg Gwalch
***Cyfres Roli Poli: Nan a'r Sioe Fawr*** – Ifan Jones Evans – Y Lolfa
***Camau Corsiog*** – Meilyr Siôn – Atebol
***Sara Mai ac Antur y Fferm*** – Casia Wiliam – Y Lolfa
**Cyfres Cwm Cawdel** – Gwennan Evans – Gwasg Carreg Gwalch

# Gareth Evans-Jones

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Cefais fy ngeni yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor (Matalan heddiw!), a fy magu yn Nhraeth Bychan, Ynys Môn.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Es i Ysgol Llanbedrgoch ac Ysgol Goronwy Owen, Benllech, ac yna i Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i'n hoffi gwersi penodol, yn enwedig Addysg Grefyddol, Cymraeg, Mathemateg, Cemeg a Drama. Y peth ro'n i'n casáu oedd imi dorri fy ffêr yn chwarae rygbi ym Mlwyddyn 7!

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Ro'n i isio bod yn ocsiwnïar (arwerthwr)!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
A dweud y gwir, doeddwn i ddim yn darllen ddigon, ond rhai o'm hoff lyfrau oedd *Rala Rwdins* (Angharad Tomos), *Y Mabinogi* (Gwyn Thomas), a *The Elves and the Shoemaker* (Ladybird).

**Beth yw eich diddordebau?**
Rydw i'n hoffi cerdded, sgwennu, darllen, gwylio ffilmiau, teithio, cymdeithasu a chaiacio.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Bod efo teulu a ffrindiau; mynd am dro braf; sgwennu; treulio amser efo fy anifeiliaid.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Pan dydi pobl ddim yn trin ei gilydd gyda pharch.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Rydw i'n hoffi edrych ar gymeriadau sydd ychydig yn 'wahanol'. Ro'n i'n wahanol yn tyfu fyny, ddim yn ffitio'n llwyr, ac mae hynny'n berffaith iawn. Dwi hefyd yn hoffi edrych ar sut mae llwybrau bywydau pobl yn gallu cris-croesi â'i gilydd, yn annisgwyl weithiau!

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Os ydych chi awydd sgrifennu, ewch amdani! Sgwennwch a darllenwch! Os ydych chi eisiau sgwennu nofel, darllenwch nofelau o bob math! Os ydych chi eisiau sgwennu barddoniaeth, darllenwch gerddi o bob math! Ac os ydych chi eisiau sgwennu dramâu, darllenwch a gwyliwch ddramâu o bob math! A mwynhau'r profiad!

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau am fod yn awdur ydi gallu chwarae efo geiriau, creu cymeriadau a bydoedd y bydd pobl yn gallu dod i'w nabod, ac annog sgwenwyr newydd i fynd amdani.

## Cwestiynau Cyflym:

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Cwestiwn anodd! Ga i ddau? Rupert Bear a Blodeuwedd.

**Hoff le?**
Traeth Bychan: Adra.

**Hoff fwyd?**
Bwyd Eidalaidd.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
Cwestiwn anodd! Hoff ffilm pan yn blentyn: *Lion King*. Hoff ffilm wedyn: *Stardust*. Hoff ffilm rŵan: *X-Men: First Class*.

**Hoff air?**
Cerrynt.

**Superpower o ddewis?**
Mi faswn i wrth fy modd yn medru teleportio.

**Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram ac X.


**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Teulu, ffrindiau, adra a f'anifeiliaid.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Dwi hefyd yn ddarlithydd Athroniaeth a Chrefydd ym Mhrifysgol Bangor, ac yn caru'r swydd yna hefyd!

**Top tip i ddarpar awduron**
Sgwennwch, darllenwch, ac ewch amdani!

## *Cyfres Genod Gwyrdd: Achub Afon!*

**Holly Webb, Addasiad gan Llio Elain Maddocks**
**Rily**




Mae'r pethau bychain yn gallu gwneud gwahaniaeth MAWR! Mae Ffion yn cael sioc o weld yr holl sbwriel a llanast sy'n llenwi'r afon leol. Pan mae ci ei ffrind bron â boddi oherwydd hen feic rhydlyd, mae hi'n benderfynol o newid pethau er gwell. Ond sut y gall un person berswadio cymuned gyfan i achub yr afon?

### Cwestiynau Trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Mae'r llyfr hon yn rhan o gyfres. Ydych chi'n hoffi darllen cyfresi?
- Ydych chi wedi darllen y llyfr arall yn y gyfres? Ydych chi eisiau gwneud hynny ar ôl ddarllen Genod Gwyrdd: Achub Afon?
- "Mae'r pethau bychain yn gallu gwneud gwahaniaeth MAWR!...Ond sut y gall un person berswadio cymuned gyfan i achub yr afon?" (broliant y llyfr). Allwch chi feddwl am gamau bach i helpu annog pobl i fod yn fwy gwyrdd yn ein cymunedau?
- Mae bod y tu allan ym myd natur yn wych i'n lles a'n creadigrwydd. Oes gennych chi hoff le neu ofod awyr agored? Pa nodweddion naturiol sydd yna? Coed neu ddŵr, efallai?
- Beth ydych chi'n ei wybod am afonydd? Oes yna afon lle ydych chi'n byw? Faint o afonydd sydd yng Nghymru gyfan?
- Beth yw neges y stori yn eich barn chi?
- Beth ydych chi wedi'i ddysgu o ddarllen y stori?
- Mae Ffion a Lili yn trafod arwyddion y Sidydd yn yr ail bennod. Beth ydych chi'n gwybod am arwyddion y Sidydd? Beth yw eich arwydd?
- Pa fath o gymeriad yw Ffion? Sut fyddech chi'n ei disgrifio? Beth sy'n ei gwneud hi'n arbennig?
- Allwch chi feddwl am eiriau disgrifiadol ar gyfer cymeriad Ffion, neu unrhyw gymeriad arall yn y llyfr?

### Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Mewn parau neu grwpiau, dewiswch un o'r themâu canlynol: datgoedwigo, llygredd plastig, newid hinsawdd, cynhesu byd-eang. Yna gallwch chi greu cwestiynau cwis ar gyfer eich cyd-ddisgyblion. Dewch â'ch holl gwestiynau ynghyd a chael cwis dosbarth!

Neu...

Dwy thema fawr yn y llyfr yw cyfeillgarwch a charedigrwydd. Mewn grwpiau neu barau, allwch chi ddod o hyd i enghreifftiau yn y llyfr? Pam mae cyfeillgarwch a charedigrwydd mor bwysig? Yna, trafodwch wahanol bethau gallech chi eu gwneud i ddangos caredigrwydd a chyfeillgarwch tuag at bobl eraill. Yna, ewch ati i greu calendr caredigrwydd, gydag un peth caredig i'w wneud bob dydd.

**Wedi mwynhau *Llanddafad?* Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?**
***Genod Gwyrdd: Ffasiwn Sioe!*** – Holly Webb – Rily
***Hanes fy Hynodrwydd*** – Chloe Heuch – Firefly
***Astronot yn yr Atig*** – Megan Angharad Hunter – Y Lolfa
***Dirgelwch y Dieithryn*** – Elgan Philip Davies – Y Lolfa
***Darllen yn Well: Gelli Di Newid y Byd!*** – Margaret Rooke – Graffeg
***Fi Ydy Fi*** – Sian Eirian Lewis – Y Lolfa

# Llio Elain Maddocks

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Yn Llan Ffestiniog, rhwng y môr a'r mynydd yng ngogledd Cymru.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Bro Cynfal, Ysgol y Moelwyn, ac yna i'r chweched dosbarth yn Ysgol Dyffryn Conwy.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu fyny?**
Bod yn actores a chael prynu'r ddwy L yn yr arwydd HOLLYWOOD a'u troi nhw'n dŷ i fy hun pan fyddwn i'n seren enwog.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Cyfres Rala Rwdins – maen nhw'n wych. Ro'n i fel Rwdlan, ychydig bach yn ddireidus ond yn gwneud ei gorau hefyd. *Diwrnod Golchi* ydi fy hoff lyfr erioed, a dwi'n dal i allu adrodd darnau ohono o fy nghof.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Yn yr ysgol uwchradd. Roedd gen i athrawes wych o'r enw Miss Edwards, ac roedd hi'n fy annog i sgwennu a chystadlu mewn Eisteddfodau bach er mwyn cael beirniadaeth. Fyddwn i ddim yn sgwennu heb Miss Edwards, mae hynny'n siŵr.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
O bob man! Dwi'n cadw nodiadau ar fy ffôn o sgyrsiau dwi wedi eu clywed, neu o bethau dwi wedi eu gweld – unrhyw beth fyddai'n gwneud stori dda. Mae fy nghlustiau wastad yn gwrando am ddarnau bach o ddeialog i'w dwyn, a'u rhoi mewn stori, ac mae'r pethau mwyaf difyr i'w ffeindio yn y llefydd mwyaf arferol – ar drên, mewn caffi, neu'n cerdded i lawr y stryd.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Dwi'n hoffi sgwennu am ferched, ac am y byd go iawn. A dwi'n ceisio cadw fy straeon yn ysgafn ac yn ddoniol hefyd.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
I sgwennu! Ymarfer, ymarfer, ymarfer! Ewch ati i gystadlu mewn Eisteddfodau lleol neu'r Urdd, achos mae cael beirniadaeth yn mynd i'ch helpu chi. Ond yr unig ffordd i sgwennu, ydi dechrau arni!

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gorau yw gallu creu byd a chymeriadau, a gwneud i unrhyw beth ddigwydd! Y peth gwaethaf  yw poeni mod i wedi gwneud camgymeriad yn y llyfr ar ôl iddo fynd i brint...!

## Cwestiynau Cyflym:

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Diwrnod Golchi*, gan Angharad Tomos.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Ffion o *Achub Afon* – er ei bod hi'n swil,
mae hi'n benderfynol ac yn gryf!

**Hoff le?**
Yr Eidal, neu ar ben y Moelwyn Mawr yn Ffestiniog.

**Hoff fwyd?**
Cinio dydd Sul Mam.

**Hoff air?**
Cledr, fel cledr llaw. Mae'n teimlo fel cael dy ddal yn dynn.

**Superpower o ddewis?**
Darllen meddyliau pobl – dwi'n hynod fusneslyd.

**Hoff rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram


**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Jôcs gwael, a bwyd da!

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Golygu llyfrau i blant

**Top tip i ddarpar awduron**
Tyrd i adnabod dy gymeriad yn dda, fel ffrind gorau. A sgwenna! Jest rho pen i bapur, a cer amdani.

# *Hufen Afiach Dai*

**Meilyr Siôn**
**Atebol**




Llyfr ysgafn i blant 8–11 oed a dilyniant i Hufen Afiach. Mae'r stori'n dilyn helyntion y cawr, Dai Bola Bach, a'i wraig, Blodwen Bling, y cwpwl anghyffredin sy'n rheoli canolfan awyr agored i blant o'r enw Gwersyll Hyll Glan Llan.

## Cwestiynau Trafod sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

- Mae hufen Afiach Dai yn rhan o gyfres. Beth fyddech chi'n hoffi gweld Blodwen Bling a Dai Bola Bach yn eu gwneud nesaf?
- Ydych chi wedi darllen y llyfr cyntaf yn y gyfres hon? Neu hoffech chi ei ddarllen ar ôl darllen Hufen Afiach Dai?
- Pe bai fersiwn ffilm neu ddrama o'r llyfr, pa gymeriad hoffech chi ei chwarae? Pam?
- Pa drip neu dripiau ysgol sy'n aros yn y cof? Beth sy'n eu gwneud nhw'n gofiadwy?
- Ydych chi erioed wedi bod ar drip i Wersyll Llangrannog, Gwersyll Glan-llyn neu Eisteddfod yr Urdd? Oedd e'n hwyl? Beth oedd eich hoff beth yno?
- Mae'r stori yn dechrau gyda Dai Bola Bach yn breuddwydio am ei hoff beth yn y byd. Beth yw eich hoff beth yn y byd?
- Mae'r llyfr yn cynnwys darluniadau gan Huw Aaron. Beth yw eich barn am y lluniau? Beth ydy'r lluniau'n ychwanegu i'r stori?
- Ydy'r llyfr hwn yn debyg i unrhyw lyfrau eraill rydych chi wedi'u darllen?
- Ydych chi'n hoffi straeon antur?
- Beth yw eich barn am yr epilog ar ddiwedd y stori? Allwch chi greu llun eich hun o Gwm y Cathod mewn arddull tebyg neu wahanol i'r darlunydd Huw Aaron?

## Gweithgareddau sy'n gweithio ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad

Beth am ysgrifennu disgrifiad o Dai Bola Bach neu Blodwen Bling? Gallwch chi wneud hyn mewn parau: un person i ysgrifennu am Dai a'r llall i ysgrifennu am Blodwen. Pa rinweddau sydd ganddyn nhw? Pa fath o gymeriadau ydyn nhw? Yna, cyfnewidiwch eich disgrifiadau a thrafodwch.

Neu...

Beth am greu map stori o'r llyfr i'w droi'n nofel graffig, drama neu ffilm? Gallwch wneud hyn mewn grwpiau. Rhaid i bob person yn eich grŵp ddewis ffaith bwysig o'r llyfr, i'w chynnwys yn eich map. Bydd angen i chi feddwl am sgript, set a gwisgoedd os ydych chi'n creu drama neu ffilm, a bydd angen i chi feddwl am ddarluniau os ydych chi'n creu nofel graffig. Gallwch ddefnyddio'r lluniau sy'n y llyfr fel ysbrydoliaeth ar gyfer hyn.

### Wedi mwynhau *Hufen Afiach Dai?* Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

***Hufen Afiach*** – Meilyr Siôn – Atebol
**Cyfres Twm Clwyd** – Liz Pichon – Rily
***Gwil Garw a'r Carchar Crisial*** – Huw Aaron – Broga
**Cyfres Trio** – Manon Steffan Ros – Atebol
**Cyfres Dyddiadur Dripsyn** – Jeff Kinney – Rily
**Cyfres Seren a Sbarc** – Broga

# Meilyr Siôn

**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?**
Ges i fy ngeni yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth a fy magu ar fferm yn Neuaddlwyd ger Ciliau Aeron yng Ngheredigion.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?**
Ysgol Cynradd Ciliau Parc ac Ysgol Uwchradd Aberaeron.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?**
Ro'n i wrth fy modd yn chwarae pel droed ar iard y ddwy ysgol amser egwyl a chinio bob dydd yn ddiffael! Pan o'n ifanc iawn bydden i'n casu anser cinio. Yr unig fryd ro'n i'n hoffi ac eisiau'i fwyta oedd tatw stwnsh, grefi a chig, dim byd arall!

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?**
Ro'n i'n dwli ar lyfrau T. Llew Jones.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?**
Cerdded cŵn. Dwi wrth fy modd gyda nhw!

**Beth sy'n eich gwylltio chi?**
Pobl hunanol!!!!

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?**
Pan o'n i'n edrych ar ôl plant mewn meithrinfa o'r enw Si-Lwli yng Nghaerdydd. Bydden i'n gwneud straeon i fyny am anifeiliaid Parc Thomson yn Nhregana ac yn ei hadrodd nhw i'r plant.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?**
Does dim dal o ble dwi'n cael syniadau ar gyfer stori. Maen nhw'n dod o ddigwyddiadau neu o gymeriad diddorol mein rhaglen, ffilm neu o'r newyddion. Mae ambell syniad yn dod o nunlle weithiau, dwindled jest yn cael syniad ac yna'n sgwennu amdano.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?**
Dwi'n dwlu ar chwedlau gwerin neu ar hanes Cymru. Mae ganddo ni gymaint o straeon ac maen nhw'n fy ysbrydoli i'n amlach na pheidio.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?**
Fy nghyngor i i unrhyw un sydd eisiau sgwennu yw i ddarllen cymaint o lyfrau ac awduron gwahanol ag sy'n bosib. Yna, ewch ati i sgwennu straeon byrion er mwyn ymarfer.

**Beth yw'r peth gorau / gwaethaf am fod yn awdur?**
Y peth gore am sgwennu yw'r faith eich bod chi'n medru creu byd newydd sbon a chymeriadau o bob math! Dwi'n dwlu ar y broses o ddychmygu'r stori yn fy men. Y peth gwaethaf yw gorfod eistedd i lawr a sgwennu pan ry'ch chi angen cyflwyno'r gwaith a does dim amser!

## Cwestiynau Cyflym:

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
*Twm Sion Cati* gan T. Llew Jones.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
'Pug' o waith Raymond E Feist

**Hoff le?**
Ar lan afon (unrhyw afon).

**Hoff fwyd?**
Pasta.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
Hoff Film *The Godfather*. Hoff raglen teledu yw *Salvage Hunters* ar Quest.

**Hoff air?**
'Slebetsh.'

**Superpower o ddewis?**
Cyflymder yn gynt na Flash.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Clywed adar yn canu.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Bod yn gwsmer cudd sy'n mynd i siopau a bwytai ac yna'n beirniadu'r sawl sy'n gweithio yno.

**Top tip i ddarpar awduron**
Darllenwch a darllenwch a darllenwch!

## Cofnod darllen grŵp ____________________

| Teitl | Awdur a darlunydd | **Sgôr allan o 10** (cyfartaledd grŵp) |
| --- | --- | --- |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

## Cofnod darllen ____________________

| Dyddiad dechrau | Teitl ac awdur | Dyddiad gorffen | Sgôr allan o 10 |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |